



Cylchlythyr – Tachwedd 2022

Croeso i newyddlen Morlais sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi am y prosiect.

Cynllun ynni llanw Menter Môn yw Morlais, sydd â'r nod o sicrhau budd i gymunedau lleol, yr economi a'r amgylchedd.

Am ragor o wybodaeth am Morlais cysylltwch â ni ar info@morlaisenergy.com.

Grŵp Cyswllt Cymunedol

Cynhaliwyd ail gyfarfod Grŵp Cyswllt Cymunedol Morlais ym mis Medi yng Ngwesty Bae Trearddur. Clive McGregor oedd yn cadeirio'r cyfarfod unwaith eto gyda nifer o grwpiau a chynrychiolwyr lleol o'r ynys yn mynychu'r sesiwn. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth diweddaraf gyda'r gymuned a busnesau lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr a rhanddeiliaid. Rhai o'r pynciau dan sylw oedd sicrhau budd cymunedol lleol a rhanbarthol y prosiect, y rhaglen waith adeiladu, sgiliau a hyfforddiant a'r gadwyn gyflenwi. Mae cofnodion o'r cyfarfod ar gael ar ein gwefan - <https://www.morlaisenergy.com/cy/portal/community-liaison-group/>



Cynhadledd Ryngwladol ar Ynni Morol

Aeth John Jenkins a Claire Palmer o'n tîm i'n cynrychioli ni yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Ynni Morol yn San Sebastian / Donostia ddiwedd mis Hydref. Roedd yn gyfle arbennig iddynt siarad â'n cyfoedion o bob cwr o'r byd am ein cynllun unigryw yma ym Môn. Cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda datblygwyr, cadwyn gyflenwi a chydweithwyr eraill yn y diwydiant er mwyn rhannu ein neges yn nigwyddiad Ynni Morol mwya'r byd.

OBR yn ennill cytundeb

Rhyddhawyd y newyddion yn ddiweddar bod y cwmni adeiladu o Fôn, OBR wedi ennill cytundeb gwerth £2m gyda phrif gontractwr Morlais, Jones Bros i adeiladu'r is-orsaf ar gyfer y cynllun. Mae OBR yn gwmni lleol, gyda phrofiad mewn cyflawni gwaith tebyg yn llwyddiannus ar draws Ynys Môn, Cymru a'r DU gyfan. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein perthynas gyda nhw dros gyfnod y prosiect.

Diweddariad Adeiladu

Mae'r gwaith adeiladu yn symud yn ei flaen wrth i'r gwaith ar Ffordd Ynys Lawd barhau ym mhen gogleddol y llwybr, dylai'r broses yma fod wedi ei gwblhau erbyn diwedd 2022. Mi fydd gwaith yn dechrau ar osod y ceblau wedyn, ac mae disgwyl i'r broses honno barhau tan y gwanwyn/haf 2023.

Yn y cyfamser mae adeiladu sylfeini a'r system ddraenio ar safle'rr is-orsaf ar y tir wedi dod yn ei flaen yn dda, ac mae disgwyl i'r gwaith o godi strwythurau a seilwaith arall yn parhau tan ddiwedd 2023.

Ymweliadau ag ysgolion lleol

Ers yr haf mae Aimi Hopkins ac Ian Newton wedi bod i Ysgol Cybi, ac mae Hannah Thomas a Sammy Jacques wedi ymweld ag Ysgol Gatholig Santes Fair, Caergybi i roi cyflwyniad i ddisgyblion blwyddyn 6 ar y prosiect ac arddangos model tyrbîn i'r plant. Mae ymweliadau ysgol yn gyfle i ni ddangos sut mae ynni morol yn gweithio yn ogystal â chyflwyno dulliau adnewyddadwy o gynhyrchu trydan i'r genhedlaeth nesaf. Rydym hefyd yn tynnu sylw at y gwaith cyffrous sy'n digwydd yn lleol yma ar Ynys Môn a'r cyfleodd gwaith sydd ar gael yn y maes ynni.



Digwyddiad Galw Heibio

Ym mis Awst fe gynhaliwyd digwyddiad galw heibio yn Neuadd Gymunedol Llaingoch. Roedd hi'n braf croesawu'r cyhoedd i siarad â ni am y prosiect a'r cynlluniau sydd gan Morlais ar y gorwel. Roedd hefyd yn gyfle i sgwrsio gydag aelodau etholedig lleol a ddaeth i'n gweld er mwyn rhannu ein gweledigaeth i sicrhau budd lleol o ganlyniad i'r prosiect. Mi fyddwn yn cynnal mwy o ddigwyddiadau fel hyn yn y dyfodol, cadwch lygad am fwy o wybodaeth ar ein cyfryngau cymdeithasol.

Ymweliadau safle

Roedd hi'n braf croesawu cydweithwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru i Ynys Môn yn ddiweddar i weld y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Roedd yn gyfle i ni egluro cyd-destun y cynllun iddynt, ac i sôn am gamau nesa'r prosiect. Gan bod y tywydd yn ffafriol roedd hi hefyd yn bosib i'r grŵp gael taith o'n safle ger Caergybi a chael gweld ble fydd y tyrbinau yn cael eu gosod yn y dŵr mae so law.

Ar ddechrau mis Tachwedd fe ddaeth ein datblygwr, Magallanes i Ynys Môn. Dyma oedd eu hymweliad cyntaf ers dechrau'r gwaith adeiladu ac ers i Magallanes sicrhau un o'r Contractau Gwahaniaeth (CfD) fel rhan o arwerthiant ynni adnewyddadwy diweddaraf Llywodraeth y DU. Yn ystod eu hymweliad cafodd y grŵp gyfle i gwrdd â staff Morlais a Menter Môn, a'r fîm adeiladu ar safle'r is-orsaf, yn ogystal â mynd ar daith i weld y safle angori sy'n cael ei gynnig ar gyfer Magallanes.

Ganol mis Awst fe daeth Sue Price, Pennaeth Is-adran reoli rhaglenni WEFO i ymweld â safle'r is-orsaf Morlais, y gwaith sy'n cael ei wneud ger Porth Dafach a'r is-orsaf SPEN.





Digwyddiadau

Aeth Hannah ac Ian i Goleg Menai, Llangefni ddiwedd mis Hydref i ddigwyddiad Codi STEM. Cawsom roi cyflwyniad i fyfyrwyr lleol ar gyfleoedd ym maes STEM, yn benodol mewn ynni adnewyddadwy. Gwych oedd siarad â phobl ifanc oedd â diddordeb a brwdfrydedd go iawn am botensial prosiectau fel Morlais.

Cawsom gyfle hefyd i fynychu digwyddiad Gyfa Cymru f yn Pontio, Bangor fis Hydre. Roedd hi'n dda gallu trafod a rhannu'r profiadau a'r sgiliau sy'n cael eu cynnig i bobl ifanc trwy Morlais, a'r sector gyfan.

Nol ym mis Awst roedden ni'n rhan o stondin Menter Môn yn Sioe Môn. Roedd hi'n ddeuddydd llwyddiannus iawn, gyda llawer yn galw mewn i'n gweld ni, i ddysgu mwy am sut mae ynni llanw yn gweithio, am ein cynlluniau a'n gweledigaeth ni.

Tîm Morlais a Menter Môn yn parhau i dyfu

Mae'r cylchlythyr yn gyfle i ni eich diweddarau chi unwaith eto bod fîm Morlais yn tyfu.

Wrth i waith adeiladu barhau, mae Claire Palmer, arbenigwr yn y maes, yn ymuno â'r fîm fel Cyfarwyddwr Rhanddeiliaid. Daw Claire â chyfoeth o brofiad a chysylltiadau gyda hi o'r sector ynni morol. Bydd yn gyfrifol am gysylltu â'r gadwyn gyflenwi, datblygwyr tyrbinau, yn ogystal â partneriaid ym maes sgiliau a hyfforddiant.

Yn ogystal rydym wedi penodi Gareth Roberts fel Arweinydd Gweithrediadau. Mae Gareth yn gyn Reolwr Cydymffurfiaeth, Cyfleusterau a Thir gydag Adra Cyf, ac yn dod â phrofiad rheoli prosiect i'r fîm. Mae ganddo gefndir hefyd yn y diwydiant trydanol ac wedi rheoli cwmni contractio trydanol.